

Cofnodion cyfarfod 5/9/2019

Preseanol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Mabon Rhys, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan, Lis Puw (Clerc).

Cododd y Cynghorwyr i gofio am y diweddar Edith Roberts a fu'n Gynghorydd tan yn ddiweddar iawn ac yn Faer y Bala dwywaith. Croesawyd aelodau ei theulu i'r cyfarfod i wrando ar deyrnged y Maer ar ran y Cyngor, ac i dderbyn plât pren addurnedig er cof am 25 mlynedd o wasanaeth Edith Roberts i'r Cyngor ac i dref Y Bala.

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod a rhoddwyd croeso arbennig i aelod newydd o'r Cyngor, sef Mabon Rhys Thompson.

Roedd y Maer wedi bod yn brysur dros yr haf yn cynrychioli'r dref mewn nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys dringo'r Arennig i seremoni dadorchuddio plac newydd i gofio am yr aelodau o lu awyr yr UDA a gollodd eu bywydau yno yn 1943 yn ystod yr ail ryfel byd. Roedd tua hanner cant wedi brwydro trwy dywydd erchyll i fod yno ac fe ffilmiwyd yr achlysur gan S4C. Roedd aelodau'r RAF a chynrychiolwyr o awyrlu'r Unol Daleithiau yn bresennol, ac roeddent yn werthfawrogol iawn o'r parch y mae'r ardal yn parhau i'w roi er cof am y rhai a gollwyd. Cyflwynodd y Maer blatiau'r Cyngor iddynt i nodi'r achlysur. Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ei holl waith dros dair blynedd i sicrhau fod cofeb newydd yno, a diolchodd i bawb a wnaeth estyn cymorth i osod y gofeb newydd yn ei lle. Roedd y Maer yn dwyn i gof ymdrechion y diweddar Ifor Alun Richards pan oedd ef yn Faer y dref yn 2001-2003, ac yntau a fu mor allweddol wrth greu'r gofeb yn y lle cyntaf.

Derbyniwyd ymddiheuriadau Ivora Jones a Sharon Evans.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 4ydd, 2019.

4. **Materion y Clerc:**

- i. 4i Presenoldeb yr Heddlu ar Wyl y Banc: er na chafwyd ymateb ysgrifenedig i sylwadau'r Cyngor, nododd yr aelodau fod yr Heddlu wedi bod yn amlwg eu presenoldeb yn y dref yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc, ac ni welwyd y cam-yddwyn a'r difrod a ddioddefwyd yn ystod gwyliau banc blaenorol.
- ii. 7ii Ardoll parcio – derbyniwyd gwybodaeth y byddai Cyngor Tref Y Bala yn elwa o'r ardoll parcio ac y byddai hwn yn ei dro o gymorth i'r Cyngor gadw'r toiledau cyhoeddus ar agor.
- iii. 9iv Ymateb Cartrefi Cymunedol Gwynedd i farn y Cyngor ar godi tai yng Nghysgod y Coleg – ni chafwyd ymateb i sylwadau'r Cyngor.

- iv. Cais Cyfoeth Naturiol Cymru i enwebu cyd-gysylltydd - enwebwyd Tony Parry a gofynnwyd am roi'r mater hwn fel eitem fisol ar yr Agenda.
- v. 11. Mater a ohiriwyd o gyfarfod Gorffennaf: cytunwyd i gefnogi annibyniaeth i Gymru.
- vi. 14.ii Cyfarwyddwyd y Clerc i gysylltu gyda chwmni arbenigol i geisio lleihau'r nifer o jac-y-dos yn y dref.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Dywedodd ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod eu cynlluniau ar gyfer blaendraeth y llyn. Er y bydd llawer o goed yn cael eu torri, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu plannu mwy yn eu lle.

Mae gweddill cyfarpar Neuadd Buddug yn cael eu trosglwyddo i Theatr Derek Williams.

Mynegodd ei falchder o waith y Gwasanaeth Ieuencid yn gweithio gyda phobl ifanc i blannu blodau mewn potiau a'u dosbarthu o gwmpas y dref. Diolchodd i'r Uchel Siryf am y grant a roddwyd i alluogi hyn i ddigwydd.

Diolchodd i'r Maer am ei bresenoldeb a'i gymorth yn y seremoni dadorchuddio plac ar ben Arennig. Diolchodd hefyd i'r bobl leol am eu gwaith yn cludo a gosod.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith a'i adroddiad.

6. **Is-bwyllgor goleuadau Nadolig** - Derbyniwyd adroddiad a manylion sawl cyfarfod. Mae costau goleuo'r coed a'r stryd yn uchel iawn. Ceisir cyd-weithio gyda'r frigâd Dân i osod coeden ar gyrion y dre; gofynnir i NMWTRA pa bryd y byddant yn tocio coed nesaf; bwriedir goleuo'r coed sydd heb eu difrodi yn ystod y tocio diwethaf; cynhelir cystadleuaeth addurno blaen siopau ac anogir busnesau i osod coeden fechan lle bo braced. Y bwriad ydyw cydweithio gyda busnesau a mudiadau ar bwyllgor Nadolig Y Bala . Y bwriad ydyw addurno 13 polyn lamp, os yn bosib.

7. **Adolygiad:** Bash mawr Y Bala. Gofynnir i Barc Cenedlaethol Eryri bwysu am gyfarfod adolygu gyda'r trefnwyr ac i wahodd cynrychiolwyr o'r Cynghorau i'r cyfarfod

8. **Materion Cynllunio:** Ystyriwyd ceisiadau:

- i. **NP5/53/498A** Cartrefi Cymunedol Gwynedd: Tir yng Nghysgod y Coleg - Codi 9 tŷ fforddiadwy (3 byngalo dwy loft a 6 tŷ dwy lofft) gan gynnwys parcio a gerddi cysylltiedig - GWRTHWYNEBU
- ii. **NP5/53/130E** Swyddfa Wardeiniaid, Llyn Tegid, Bala. LL23 7SR - Newid defnydd dderbynfa Swyddfa'r Wardeiniaid i siop A1 - CYMERADWYO
- iii. **NP5/53/LB129E** Estyniad i ychwanegu ac addasiadau'r ystafelloedd preswyl, cegin newydd ac estyniad i'r Capel presennol, Coleg Y Bala, Bala. LL23 7RY – CYMERADWYO
- iv. **Pwyllgor Llyn Tegid** - Enwebwyd Sue Davies a J C Williams i gynrychioli'r Cyngor.

9. **Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chytunwyd i dalu'r cyflog y Clerc am fisoedd Gorffennaf ac Awst. Cytunwyd hefyd i dalu £300 fel ag

addawyd tuag at gostau gosod y plac ar fynydd Arennig. Nodwyd derbyn ail hanner y Praesept.

- ii. Ardoll leol ar y meysydd parcio - astudiwyd manylion y swm a allai ddod i goffrau'r Cyngor er mwyn ceisio cadw'r Toiledau Cyhoeddus ar agor.

10. Gohebiaeth:

- i. **Llywodraeth** – y Clerc wedi ymateb i arolwg ar ddefnydd y Cyngor o gyfryngau cymdeithasol
- ii. **Llywodraeth** - tynnodd y Clerc sylw at y ddyletswydd newydd i adrodd ar fioamrywiaeth; disgwylir mwy o fanylion yn fuan.
- iii. **Cyngor Gwynedd:** derbyniwyd gwybodaeth am newid colofnau golau stryd ym Mawnog Fach.
- iv. **Cyngor Gwynedd:** Daeth cais am drwydded gwerthu diod yn yr Hwb, ond mater i Gyngor Llandderfel ydyw hwn, nid Cyngor Tref Y Bala.
- v. **Un llais Cymru:** Nodwyd derbyn gwybodaeth am Raglen Hyfforddiant.
- vi. **Arall:**
Nodwyd derbyn gwybodaeth am Rali Cymru GB sydd i'w gynnal yn Hirnant ar 4/10/19.
Nodwyd derbyn pecyn o wybodaeth gan y Farwnes Eluned Morgan AC.
Nodwyd derbyn cylch lythyr Cymru Oed-Gyfeillgar.
Nodwyd derbyn gwybodaeth gan y Clwb Rotari am gynnal Gŵyl Fwyd.

11. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a llongyfarchwyd Alun Price ar gael ei ethol yn Gadeirydd.

12. **Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Cytunodd John Caradog Williams i holi am brisiau i atgyweirio'r panel gwybodaeth ar Y Domen.

13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref

- i. Diogelwch ger y giatau llifogydd y Bala - cytunwyd i anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am arwyddion wrth Bont y Ddyfrdwy yn ymyl pont Mwnwgl y Llyn ac wrth y llifddorau i rybuddio am y peryglon.
- ii. Gwrych wedi gordyfu: addawodd Cynghorydd gael gair gyda'r perchennog.
- iii. Cais i osod mainc coffa o flaen Caffi'r Cyfnod: cytunwyd i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth wrth i'r teulu wneud cais i NMWTRA.
- iv. Nodwyd arwyddion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wrth faes chwarae heol y Castell, ac o faw cŵn mewn amryw o leoliadau.
- v. Tynnwyd sylw at bafin anwastad o flaen siop Kel.

Amser gorffen: 9.20pm